

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd – Cyfarfod Arbennig

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD



09:00 – 09:30



24/06/2026



MS Teams

Cadeirydd	Marian Wyn Jones
-----------	------------------

Yn Bresennol (Aelodau)		Teitl	Sefydliad
Marian Wyn Jones (Cadeirydd)	MW-J	Aelod Annibynnol, Cadeirydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
Alistair Klaas Neill	AKN	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
Marilyn Bryan Jones	MB-J	Aelod Annibynnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
Presennol			
Stephen Chaney	StC	Pennaeth Archwilio Mewnol	Archwilio Mewnol PCGC
Mark Cox	MC	Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
Chris Darling	CD	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol Ysgrifennydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
Chris Moreton	CM	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Sicrwydd Busnes	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
Julie Robinson	JR	Ysgrifenyddiaeth y Cyfarfod	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
David Tomalin	DT	Arweinydd Archwilio Ariannol	Archwilio Cymru

Mike Whiteley	MW	Rheolwr Archwilio	Archwilio Cymru
Sian Williams	SW	Pennaeth Gwasanaethau Ariannol ac Adrodd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)

Ymddiheuriadau		
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.		

Acronymau			
Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	AS	Archwilio a Sicrwydd
AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig	CBBD	Cronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol
BAF	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	PCGC	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
GDCC	Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd	PSPP	Perfformiad Talu'r Sector Cyhoeddus

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu
1	MATERION RHAGARWEINIOL		
1.1	Croeso a Chyflwyniadau Croesawodd y Cadeirydd, Marian Wyn Jones, bawb i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	Ymddiheuriadau absenoldeb Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	Datganiadau o Fuddiant	Nodwyd	Dim i'w nodi



	Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant i'w nodi.		
2	CYFRIFON ARCHWILIEDIG A'R ADRODDIAD BLYNYDDOL		
2.1	Cyfrifon Ariannol Blynyddol 2025-26 (wedi'u cynnwys yn eitem 2.3) a Llythyr Cynrychiolaeth Cyflwynodd Chris Moreton, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (CM) y cyfrifon, gan nodi cyfnod gweithredol heriol ond perfformiad tîm cryf. Cyflwynodd Sian Williams, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol ac Adrodd (SG), y cyfrifon wedi'u harchwilio a'r prif ganlyniadau ariannol: • Disgwylir barn archwilio ddiamod (yn amodol ar lythyr cynrychiolaeth wedi'i lofnodi) • Cyfrifon i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 26 Mehefin 2026. • Cyflawnodd y sefydliad ddyletswyddau ariannol. • Tanwariant refeniw: £0.241m, tanwariant cyfalaf: £0.95m. • Addasiadau bach wedi'u gwneud, dim camddatganiadau perthnasol. Cydnabu'r Pwyllgor y berthynas waith gref ag Archwilio Cymru i alluogi'r broses i weithio'n esmwyth. Penderfynodd y Pwyllgor: GYDNABOD i'r Bwrdd y Cyfrifon Blynyddol 2025/26 a CHYMERADWYO Llythyr Cynrychiolaeth ar gyfer IGDC i'w lofnodi gan y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.2	Adroddiad Archwiliad Cyfrifon Cyflwynodd Mike Whiteley, Archwilio Cymru (MC) Adroddiad Archwiliad Cyfrifon Archwilio Cymru a darparodd y canfyddiadau allweddol canlynol: • Barn archwilio ddiamod (lân) wedi'i chynllunio. • Ni nodwyd unrhyw faterion, gwendidau na chamddatganiadau sylweddol heb eu cywiro.	Nodwyd	Dim i'w nodi



	• Addasiadau lleiaf heb unrhyw effaith sylweddol. • Ymgysylltiad a chydweithrediad archwilio cadarnhaol gan IGDC. Roedd ystyriaethau yn y dyfodol yn cynnwys y mater TAW a'r statws uwchgyfeirio i barhau i fod yn ffocws archwilio yn y dyfodol. Canmolodd y Pwyllgor berfformiad y tîm cyllid a chryfder a gwydnwch rheolaeth ariannol. Penderfynodd y Pwyllgor: NODI'R Adroddiad Archwilio Cyfrifon (<i>a elwid gynt yn ISA260</i>)		
2.3	Adroddiad Blynyddol IGDC 2025-26 (gan gynnwys Adroddiad Atebolrwydd, Adroddiad Perfformiad a Datganiadau Ariannol) Cyflwynodd Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol Ysgrifennydd y Bwrdd (CD), a Laura Tolley, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol/Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd (LT) yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2025-2026, gan dynnu sylw at yr adroddiad perfformiad, yr adroddiad atebolrwydd, a'r datganiadau ariannol. Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol: • Mae'r adroddiad yn adlewyrchu blwyddyn heriol ond llwyddiannus i IGDC. • Wedi'i ddatblygu drwy ymgysylltu ailadroddus â Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol. • Fe'i cynhyrchwyd ar ffurf PDF, yn unol â'r Llawlyfr ar gyfer Cyfrifon - Canllawiau Pennod 3 a fersiwn HTML ddigidol ychwanegol er mwyn hygyrchedd. • Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn fuan. • Roedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi'i drefnu ar gyfer 30 Gorffennaf 2026. Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol: Cyflwynodd Stephen Chaney, Pennaeth Archwilio Mewnol PCGC (SC), farn derfynol y pennaeth	Wedi'i gymeradw yo a'i nodi	Dim i'w nodi



	archwilio mewnol, gan roi sicrwydd rhesymol ar y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Mae rhai meysydd angen sylw rheolwyr, ond mae'r risg gyffredinol yn isel i gymedrol. Penderfynodd y Pwyllgor: GYMERADWYO Adroddiad Blynyddol IGDC 2025-26 (gan gynnwys Adroddiad Atebolrwydd, Adroddiad Perfformiad a Datganiadau Ariannol) DERBYN A NODI Barn Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer SICRWYDD.		
RHAN 3	MATERION I GLOI		
3.1	Unrhyw Faterion Brys eraill Ni chodwyd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi.	Nodwyd	Dim i'w nodi
3.2	Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf: • 14 Gorffennaf 2026	Nodwyd	Dim i'w nodi